Y Llygoden gafodd lond ei bol

Diolchgarwch / Ymddiriedaeth

Unwaith roedd llygoden fach frown yn byw ar ei phen ei hun mewn eglwys fawr. Wel, doedd yr eglwys ddim yn fawr fel rhai eglwysi ond roedd hi'n eglwys fawr, fawr, i lygoden fach, fach. Llygoden fach denau, denau oedd y llygoden fach frown gan nad oedd yna ddim i'w fwyta yn yr eglwys. Felly, byddai'r llygoden fach yn gorfod mynd allan i'r caeau i chwilio am fwyd. Lle perygl oedd allan yn y cae gan fod gan y llygoden fach gymaint o elynion. Weithiau byddai tylluan frech yn hwtian yn y goeden ffawydd. Dro arall byddai cudyll coch yn hofran yn yr awyr uwchben. Lle perygl iawn oedd y caeau agored. Ond roedd raid mentro pan oedd y stumog yn wag. Un noson ddechrau mis Hydref daeth llawer o bobl i'r eglwys. Dyna lle roedd y llygoden fach yn sbecian drwy ddrws ei thwll. Roedden nhw'n cario pob math o fwydydd efo nhw. Roedden nhw'n cario llysiau o bob math – tatws, moron a bresych. Roedd eraill yn cario ffrwythau o bob math – afalau, orennau a grawnwin. Roedd ambell un yn cario bara a chaws ac un arall yn cario blodau lliwgar. Beth oedd yn digwydd, tybed?

Y noson honno doedd dim angen mynd allan i'r caeau i chwilio am fwyd. Drwy'r nos bu'r llygoden fach yn bwyta a bwyta nes oedd hi'n grwn. Aeth i'w gwely yn oriau mân y bore a chysgodd fel twrch.

Rywbryd yn ystod y bore clywodd sŵn siarad yn yr eglwys. Aeth i sbecian. Roedd yr eglwys yn llawn o bobl. Pobl nad oedd wedi'u gweld o'r blaen. Gwrandawodd yn astud. Soniodd un o'r bobl am "Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf." Dyna pam roedd yna gymaint o bobl yn yr eglwys. Dod i ddiolch am eu bwyd oedden nhw.

Meddai'r llygoden fach wrthi'i hun. "Mi fuaswn i wrth fy modd petai hi'n ddiolchgarwch am y cynhaeaf bob dydd o'r flwyddyn i mi gael digon o fwyd i'w fwyta. Ac mae yna reswm arall hefyd, mae'r bobl yma i gyd yn edrych mor hapus."

Ar ôl i'r bobl fynd o'r eglwys mentrodd y llygoden fach allan o'i thwll. Edrychodd o'i chwmpas yn ofalus rhag ofn bod yna rywun o gwmpas. Ond roedd pobman yn ddistaw fel y bedd. "Beth gai i fwyta heddiw?" meddyliodd.

Aeth yn syth at y grawnwin oedd yn hongian o big yr eryr mawr sy'n dal y Beibl. Roedd yn anodd iawn dringo i fyny ond ar ôl trio fwy nag unwaith llwyddodd i gyrraedd y Beibl mawr. Cerddodd drosto ac at big yr eryr.

"Wel dyma rawnwin blasus, rhai duon, melys," meddai wrthi'i hun.

Ar ôl iddi fwyta llond ei bol arhosodd yno i edrych ar y gwahanol fwydydd oedd yn yr eglwys.

"Dywedodd un o'r bobl y byddan nhw'n dod yn ôl yfory i nol y bwydydd i fynd i'r bobl yn yr ysbyty, ac i'r hen bobl mewn cartrefi. Os gwn i ydi'r bobl yn gwybod eu bod nhw wedi rhoi bwyd ym mol llygoden fach lwglyd hefyd?"

Daeth i lawr oddi ar y Beibl mawr yn sydyn ac i mewn â hi i'w thwll. Yno buo hi wedyn yn cysgu a chysgu a chysgu.

Diolch i Ti, O Dduw, am y bwyd rydw i yn gael bob dydd. Mi rydw i hefyd yn cofio am bobl a'r plant sy ddim yn cael dim i'w fwyta. Amen.

- Ydych chi wedi bod mewn gwasanaeth i ddiolch am y cynhaeaf? Beth oedd yn digwydd yn y gwasanaeth?
- Lluniwch weddi i ddiolch am eich bwyd.